# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** | |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 8 Hydref 2012** | |
| Amser: | **13:00 - 16:20** | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_800000_08_10_2012&t=0&l=cy**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Gillian Body, Assistant Auditor General, Wales Audit Office**<br>**Paul Dimblebee, Group Director - Performance Audit, WAO**<br>**Pol Wong, Powys Fadog**<br>**Amanda Brewer**<br>**Gareth Hall** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod, gan bwysleisio mor falch ydoedd fod y Cyfarfod yn cael ei gynnal yn Llangollen.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie Morgan.

## 2. Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen - Tystiolaeth gan Powys Fadog

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Pol Wong, Prif Weithredwr a Chadeirydd Powys Fadog.

2.2 Holodd y Pwyllgor y tystion.

**Cam i'w gymryd:**

Cytunodd Powys Fadog i ddarparu:

- rhagor o wybodaeth am pryd y daeth dosbarthiadau crefft ymladd i ben ar hen safle gwesty'r River Lodge;

## 3. Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen - Tystiolaeth gan Amanda Brewer

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Amanda Brewer i'r cyfarfod.

3.2 Holodd y Pwyllgor y tyst.

## 4. Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen - Tystiolaeth gan gyn Swyddog Cyfrifo

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Gareth Hall i'r cyfarfod.

4.2 Holodd y Pwyllgor y tyst.

**Cam i'w gymryd:**

Cytunodd Gareth Hall i ddarparu:

- rhagor o wybodaeth am waith briffio gyda'r Gweinidog perthnasol o ran cynigion Cymdeithas Tai Clwyd Alyn i ddefnyddio safle gwesty'r River Lodge.
- Eglurder ar a gafwyd unrhyw esiamplau eraill o Awdurdod Datblygu Cymru / Llywodraeth Cymru yn methu â chynnal gwerthusiad annibynnol ar gaffael tir.
- Eglurder ar ba bryd y comisiynwyd yr adolygiad cydymffurfio.
- E-bost a gafwyd gan reolwr llinell Amanda Brewer yn amlinellu natur ei rôl ar fwrdd Powys Fadog a sicrwydd bod yr achos o wrthdaro buddiannau yn cael ei reoli'n effeithiol.

## 5. Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 7.

## 7. Ystyried y dystiolaeth ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar weithredoedd Llywodraeth Cymru wrth gaffael a gwaredu hen westy'r River Lodge, Llangollen.